

YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH

DYDD Mercher, 22 Tachwedd 2023

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: H.A.L. Evans (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

M. Bull, Rheolwr Rhanbarthol - Datblygu Economaidd

M. E. Pemberton, Cydlunydd Rhaglenni Gwledig

H. Barrett, Project & Funding Co-ordinator

E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Gynadledda Adnoddau - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 1.30 - 1.40
yp**

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19EG HYDREF, 2023

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 19 Hydref, 2023 yn gofnod cywir.

3. CRONFA ARLOESI GWLEDIG

Ystyriodd yr Aelod Cabinet bum cais a oedd wedi dod i law am gymorth ariannol o dan y Gronfa Arloesi Gwledig, a oedd yn rhan o'r Angor Gwledig o fewn Ymyrraeth Cymunedau a Lle Cronfa Ffyniant Gyffredin Sir Gaerfyrddin.

Nodwyd bod y ceisiadau wedi'u hasesu yn erbyn meini prawf y gronfa gan banel o swyddogion a Phanel Asesu y Gronfa Arloesi Gwledig a Chymunedau Cynaliadwy, fel rhan o'r Bartneriaeth Adfywio ehangach, cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth i'w hystyried.

PENDERFYNWYD

3.1 cymeradwyo'r ceisiadau canlynol a gyflwynwyd am gyllid gan y Gronfa Arloesi Gwledig yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:

Ymgeisydd	Dyfarwyd
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin (SPF-RIF-17)	£44,620
Calon Cymru LGBTQ+ (SPF-RIF-18)	£35,106

3.2 peidio â chefnogi'r ceisiadau canlynol a gyflwynwyd am gyllid gan y Gronfa Arloesi Gwledig:

Ymgeisydd	Y rheswm dros beidio â chefnogi
Living Pictures (SPF-RIF-19)	Methodd â sgorio isafswm y sgôr wedi'i phwysoli oedd ei angen gan nad oedd lefel yr arloesedd yn glir, ac nid oedd y cais yn dangos digon o dystiolaeth o ran yr angen lleol.
Menter Dinefwr (SPF-RIF- 20)	Methodd â chyflawni prif amcanion y gronfa, ac roedd y prosiect o fudd yn bennaf i fusnes craidd yr ymgeisydd yn hytrach na threialu darparu gwasanaethau arloesol o fewn y gymuned.
Age Cymru Dyfed (SPF RIF 21)	Methodd â chyflawni prif amcanion y gronfa, ac roedd y prosiect yn canolbwyntio ar gadw'r gwasanaethau presennol, felly nid oedd yn bodloni isafswm y sgôr wedi'i phwysoli oedd ei angen er mwyn i'r cais gael ei argymhell i'w gymeradwyo

4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DEYRNAS UNEDIG - GRANT TYFU BUSNES (ARLOESED)

Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran cynnal tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r bobl a'r busnesau a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ystyriaeth i gais prosiect a oedd wedi dod i law gan fusnes a oedd yn ceisio cymorth gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin – Cronfa Grant Tyfu Busnes a oedd yn galluogi busnesau i ddechrau, cynnal, tyfu ac arloesi.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r prosiect a gyflwynwyd i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin – Cronfa Grant Tyfu Busnes fel y manylir yn yr adroddiad.

6. CRONFA YNNI ADNEWYDDADWY BUSNES

Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran cynnal tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r bobl a'r busnesau a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.

Ystyriodd yr Aelod Cabinet geisiadau prosiect a oedd wedi dod i law gan ddau fusnes a oedd yn gofyn am gymorth gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin – Cronfa Ynni Adnewyddadwy Busnes a oedd yn galluogi busnesau i ymgymryd â phrosiectau gwella ynni adnewyddadwy gan arwain at arbedion effeithlonrwydd busnes a lleihau carbon.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r prosiectau a gyflwynwyd i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin – Cronfa Ynni Adnewyddadwy Busnes fel y manylir yn yr adroddiad.

AELOD O'R CABINET

DYDDIAD